YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1900. [RHIF 148.

PREGETH GAN Y DIWEDDAR JOHN JAMES.

YN mysg llawysgrifau John James, cefais y bregeth ganlynol; ac wedi ei darllen drosodd a throsodd, meddyliais mai dymunol fyddai ei chael yn argraffedig yn yr YMOFYNYDD, nid yn gymaint er mwyn i Undodiaid yr oes bresenol gael cyfleusdra i'w darllen, er y dichon y bydd y darlleniad ohoni o ryw adeiladaeth iddynt hwy, ond yn benaf am y rheswm mai felly y gellir dwyn yr athrawiaeth a ddysgir ynddi i sylw'r cyhoedd uniongred, i'r mwyafrif o ba rai, fel y mae gwaethaf y modd, y mae hon yn dra dyeithr. Yr wyf yn barnu i'r bregeth gael ei chyfansoddi oddeutu y flwyddyn 1834, ac oddiwrth lythyr y diweddar John Jones, Penybont-ar-Ogwy, at yr awdwr, dyddiedig yr 8fed o Hydref, 1834, yr wyf yn cael ar ddeall i Bwyllgor Cymdeithas y Dwyfundodiaid yn Neheubarth Cymru geisio ganddo ei chyhoeddi, yr hyn nis gwnaeth oherwydd rhyw reswm neu gilydd. T. T.

CARIAD DUW.

"*Yr hwn nid yw yn caru, nid adnabu Dduw; oblegid Duw, cariad yw.*"—1 IOAN iv. 8.

Y mae'r geiriau hyn yn profi fod Ioan yn tybied nad oes neb a fyddo yn casâu yn adnabod Duw, ac y mae'r adnod flaenorol yn dangos ei fod yn meddwl fod pob un sydd yn caru yn ei adnabod Ef, oherwydd mai cariad yw Ef. "Pob un a'r sydd yn caru, o Dduw y ganwyd ef, ac y mae efe yn adnabod Duw." Y mae yr hwn sydd yn caru yn cyflawni'r gyfraith hefyd, Rhuf. xiii. 8, 9. Ar gariad, medd Crist, y mae'r gyfraith a'r proffwydi yn ymddibynu; a'r sawl sydd yn

caru a etifeddant fywyd tragywyddol. Ac medd Ioan, Y mae y rhai sydd yn adnabod Duw yn caru, oblegid Duw cariad yw. Bywyd tragywyddol i fod yn ddymunol raid fod yn fywyd dedwydd; mae'r addewid o fywyd tragywyddol, gan hyny, yn addewid o ddedwyddwch parhaus. Yr ydym ni, bawb ohonom, am ei feddu; yr ydym yn holl drafferthion a gorchwylion bywyd yn cael ein cyffroi gan y dymuniad o fod yn ddedwydd, naill ai mewn mwyniant presenol neu mewn gobaith am dano. Y mae dedwyddwch parhaus i'r sawl sydd yn caru, i *bawb* sydd yn caru, ac i *ni*, os ydym yn caru, ond nid i neb arall. Dwy blaid o ddynion sydd—rhai yn caru, a rhai yn casâu, da a drwg, dedwydd ac annedwydd. Yn ol Ioan, y rhai sydd yn adnadod Duw, a'r rhai nis adwaenant Ef. Nid rhyfedd, gan hyny, fod yr un gosb i'r rhai nid adwaenant Dduw ag sydd i'r rhai a wnant ddrwg, ac nid ydynt yn ufuddhau i'r Efengyl, 2 Thes. i. 8. A ydyw pawb yn caru, caru eu brodyr, caru Duw, ac yn cadw ei orchymynion Ef? Gosodwn y cwestiwn at ein calonau; ac os na chawn foddlonrwydd ein bod, y mae Ioan yn dywedyd mai yr achos yw nad ydym yn adnabod Duw, nac yn adnabod ei gariad Ef. Os mynwn garu Duw a dyn, ac os mynwn fod yn ddedwydd i'r graddau mwyaf am dragywyddoldeb, y mae yn rhaid i ni ymdrechu hyd y gallom i adnabod cariad Duw.

I. Ei Natur.
II. Ei Helaethrwydd.
III. Ei Barhad.
IV. Effeithiau adnabyddiaeth ohono.

I. Ei Natur.

I'r dyben o gael addysg trwy eiriau, rhaid i ni ddeall yr ystyr yn mha un y maent yn cael eu harfer, a beth yw'r meddwl y mae y sawl sydd yn eu harfer yn olygu ei gyflwyno drwyddynt. Pan y mae Ioan yn dyweyd mai cariad yw Duw, y mae yn angenrheidiol i ni ddeall beth mae ef yn feddwl wrth gariad pan yn arfer y gair. Gellid meddwl fod ystyr y gair mor amlwg fel nad oes eisieu eglurhad o gwbl, a bod mwy o berygl i dywyllu ei ystyr wrth geisio ei esbonio na'i gymeryd heb un esboniad arno. Ond oherwydd mai am Dduw mae Ioan yn llefaru, a bod yn agos yr holl ddadleuon crefyddol, a'r anghariad a ddeillia ohonynt yn cyfodi oddiwrth y gwahanol feddyliau a goleddir am dano Ef, ac yn neillduol am Ei gariad, y mae yn ymddangos mai iawn fyddai cael nodau neu reolau amlwg er gwybod beth a feddylir wrth gariad Duw.

Ni wna un lles i ni ddywedyd mai cariad yw Duw, heb wybod beth feddylir wrth hyny. Ni theimlir parch iddo, na chariad ato, heb wybod, nid yn unig mai cariad yw, ond fod yna feddwl ag sydd yn enill cariad ato. Ond pa fodd mae i ni wybod beth yw Ei gariad Ef? Yr wyf yn ateb mai yr un peth yw cariad yn Nuw ag yw cariad mewn dyn; ond megys mai anfeidrol yw Duw yn mhob priodoledd, felly Ei gariad. Ni byddai bosibl i ni gael un amgyffred am gariad Duw oni bai ei fod yr un peth a chariad mewn dyn. Rhai yn wir a ddywedant na ddylid cymharu Duw â dyn. Y mae yn sicr mai gwrthun fyddai

cystadlu dyn â Daw; ond os na ddylid cymharu Duw â dyn, pa fodd y gall dyn wybod dim am dano? Ni all dyn wybod dim am gariad, os nad yw ef yn gyffelyb i'r cariad y mae ef yn deimlo neu yn ei brofi oddiwrth ereill, neu yn sylwi arno yn mhlith ereill. Ni all neb wybod dim am Dduw ond trwy ymresymiad cyfatebiadol—trwy gyfatebiad y dynol â'r Dwyfol. Ystyriwn Ei ddoethineb, ei allu, a'i ddaioni; beth all neb wybod am danynt ond oddiwrth y ddoethineb, y gallu, a'r daioni a ganfyddir mewn dynion, er yn fach ac anmherffaith iawn mewn cymhariaeth. Pa feddwl all neb gael am ddoethineb, gallu, daioni, cyfiawnder, a sancteiddrwydd Duw, os nad yr un ydynt o ran eu natur yn Nuw ag ydynt mewn dyn, ond eu bod yn anfeidrol yn y blaenaf? Y mae dyn wedi derbyn doethineb oddiwrth Dduw, ond ni dderbyniodd ddoethineb ag nad oedd Ef yn feddianol arni ei hunan. O'i allu ei hun y mae Duw yn cyfranu gallu, ac o'i ddaioni ei hun y mae yn cyfranu pob daioni, a chariad o'i gariad anfeidrol Ef ydyw'r cariad ydych chwi yn ei feddu. Gwlith o fôr Ei anfeidrol gariad Ef yw pob cariad a deimlasoch chwi a minau erioed. Nid yw eich cariad chwi, rieni tyner, at eich plant ond y defnyn lleiaf o natur nawsaidd môr anherfynol gariad ein Tad Nefol, er rhoi i chwi ryw ddrychfeddwl gwan am natur Ei gariad Ef. Ond os yw cariad Duw yn wahanol yn ei natur i'r cariad a roddodd Ef yn y galon ddynol, pa ddyben yw dyweyd neu bregethu mai cariad yw Duw pan na ellir gwybod pa *fath* gariad yw? Duw nad adwaenir yw, ac a fydd felly byth.

Mae ysgrifenwyr yr Ysgrythyrau yn hysbysu neu yn egluro i ddynion beth yw cymeriad Duw trwy ei gyffelybu i dad daearol—ni wyddent am un gyffelybiaeth o well—"Fel y tosturia tad wrth ei blant, felly y tosturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef," Salm ciii. 13. "A anghofia gwraig ei phlentyn sngno, fel na thosturio wrth fab ei chroth? ïe hwy a allant anghofio, eto Myfi nid anghofiaf di," Esa. xlix. Medd Crist, "Pan weddïoch, dywedwch fel hyn—"Ein Tad;" a thrachefn, "Byddwch chwi, gan hyny, yn berffaith, fel y mae eich Tad yr Hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith," Matt. v. 48. Mae Crist eto yn cymharu Duw i dad yn nameg y Mab Afradlon, ac yn aml iawn yn coffâu am dano yn nghlyw Ei wrandawyr yn y cyfryw gymeriad, gan ddefnyddio'r gyffelybiaeth er mwyn eu cynorthwyo i ffurfio rhyw feddylddrych gwan am Ei gariad, yr hwn sydd yn anfeidrol fwy na chariad un tad daearol tuag at ei blant. Y mae tad daearol yn barod i faddeu i'w blant pan ddychwelont, er maint eu bai. Nid yw byth yn fwy nag y mae tynerwch a chariad tad yn gallu ei faddeu ar edifeirwch a dychweliad yr afradlon tua thref. Os yw cariad tad naturiol at ei blant yn eu derbyn ar eu dychweliad, oni dderbyn cariad Duw ei holl blant o ddynolryw pan ddychwelant? Os yw gwlithyn bach o gariad Duw yn nghalon tad a mam dosturiol yn eu gwneuthur yn barod i faddeu beiau'r plant pan edifarhaont, beth am fôr anfeidrol gariad Duw? Os rhydd rhieni naturiol ddaioni i'w plant, pa faint mwy y rhydd Tad pawb oll, o'i gariad anfeidrol, ddaioni i'w blant pan ofynont am dano? Y mae cariad tad naturiol yn ewyllysio dedwyddwch ei blant, ac yn ol ei allu a'i wybodaeth yn eu gwneuthur yn

ddedwydd; ond os nad yw felly, ni chred neb fod ganddo gariad at ei blant. Y mae Duw yn caru ei blant, ac yn ewyllysio eu dedwyddwch; y mae yn Ei allu a'i ddoethineb anfeidrol yn trefnu'r moddion mwyaf cymhwys ac effeithiol i ateb y dyben; y mae yn rhoddi'r addysg fwyaf ragorol ac eglur; y mae yn bygwth y gosb drymaf ar yr anufudd, ac yn addaw'r wobr fwyaf gwerthfawr i'r rhai sydd yn ufudd—y cyfan o'i gariad anfeidrol er daioni a dedwyddwch ei blant. Hyn yw ein cysur mwyaf yn ein holl wendidau, fod ein pwys ar gariad Tad anfeidrol ddoeth a hollalluog.

(*I'w barhau.*)

Y BYWYD CRISTIONOGOL.

'NAWR yr hau, a 'nawr yr wylo, gweithio'n galed, oedi'n hir;
Yn y man, cynhauaf llawen, cân y fedel drwy y tir.

'Nawr ysgythru yn ddiarbed, tocio'r cangau, gwaedu'r coed;
Yn y man gwel'd ffrwythau melus, melus ffrwythau fel erioed.

'Nawr dyledswydd blin, lluddedig, cerfio a dwyn pob maen i'w le,
Yn y man, prydferthwch hyfryd palas Brenin Mawr y Ne.

'Nawr y tiwnio, 'nawr y tynu; seiniau lleddf, anghydgord mawr;
Yn y man, yr Haleliwia'n melus esgyn uwch y llawr.

'Nawr yr ysbryd yn gystuddiol, calon ddrylliog, llygaid llaith;
Yn y man, y fuddugoliaeth—coron y gogoniant maith.

'Nawr hyfforddi, mynych holi—blin, aneglur oll yn awr;
Yn y man, gwahoddiad serchog—"Dos i fewn"—yr Arglwydd Mawr!

T. C. U.
Chwefror, 1900.

F. R. HAVERGAL,
Mumbles.

EDRYCHER ar y Beibl oddiar sade dadblygiad, ac fe'i troi'r o fod yn llyn marw i fod yn afon rhedegog.

TEILWNG o anrhydedd yw yr hwn sydd yn ewyllysio daioni pob dyn; ac anheilwng iawn yw hwnw sydd yn ceisio ei les ei hunan, ac yn gormesu ereill.—*Cicero.*

Y TEIMLAD CREFYDDOL (*THE RELIGIOUS SENTIMENT*).

Gan Mr. T. J. THOMAS, B.Sc.

(*Papyr a ddarllenwyd yn Nghapel yr Undodiaid, Dowlais.*)

MAE pob dyn, a phob creadur, yn ystod ei fywyd, yn meddu ar deimlad; a phan fyddo marw, yr arwydd cyntaf o angeu yw colli teimlad. Creda rhai fod hyd yn nod planhigion yn teimlo: fod y lili yn yr ardd yn mwynhau bywyd yn ogystal a'r aderyn ar gangen y goeden uwch ei phen. Yr oedd y bardd Wordsworth wedi cadw cwmni natur yn hir, ac yr oedd yn rhwym fod ganddo reswm da dros ddyweyd—os caniatewch y cyfieithiad o'i linellau swynol ef—

> "Mi gredaf fi fod pob blodeuyn bach
> Yn llwyr fwynhau anadlu'r awyr iach."

Yn wir, y mae yna un planhigyn a elwir y *sensitive plant*, sydd yn ymddangos fel pe'n meddu ar yr un math o deimlad yn hollol a rhyw greadur byw. Y mae blodau gwynion y planhigyn bychan hwn yn bethau tra chyffredin yn Neheubarth America: y mae mor ofnus fel nas gellir cyffwrdd â'r dail â'r llaw heb iddynt blygu i fyny fel pe mewn dychryn neu wyleidd-dra; a phan ddêl y nos, tŷn ei hun at ei gilydd, fel aderyn yn plygu aden ac yn myned i gysgu tan doriad gwawr diwrnod arall.

Yn ol hyn, ynte, y mae teimlad bob amser yn cydredeg â bywyd. Y mae teimlad o ryw fath gan y planhigyn. Y mae calon o ryw fath gan bob milyn bach. Y mae'r adar yn y coed yn llawn o fiwsig teimladwy. Y mae'r llew yn teimlo ei gryfder, a'r ewig ei gwendid yn ei grafangau; ac felly i fyny raddfa'r holl greadigaeth hyd nes y deuwn i diriogaeth ddiderfyn ac anchwiliadwy calon dyn.

Y mae rhai athronwyr wedi ceisio gwneyd allan nad yw ymwybyddiaeth, neu fywyd, os mynwch air arall am yr un peth, nad yw'r oll i gyd ond swp o deimladau (*a bundle of sensations*). Ond ni chredwn ni mai teimladau'r galon yw'r cyfan a gyfansodda fywyd; y mae'n rhaid i reswm gael ei le priodol.

Rheswm a theimlad yw dwy elfen fawr ein bywyd: y pen a'r galon sydd beunydd yn llywio teyrnas ein byd. Y pen yw'r brenin, a'r galon yw'r frenines sydd yn eistedd beunydd ar orseddfainc teyrnas dynoliaeth. Ond fel y mae y frenines yn aml yn fwy ei dylanwad ar y deyrnas na'i chymhar oerach a llai teimladwy, felly am y galon, y mae ei dylanwad ar fywyd yn aml yn anhraethol fwy nag eiddo'r pen.

Onid o gariad y gwneir rhai o weithredoedd mwyaf gogoneddus ein bywyd? Onid *sentiment* sydd wrth wraidd rhai o fudiadau mwyaf

rhagorol ein hoes ? Beth sydd fwy ardderchog na gwaith y llafurwr tlawd yn slafio o foreu hyd hwyr dros ei briod hoff a'i blant bychain newynog, fel y cân Dewi Wyn :—

"Mae y gwr yn ymguraw,
A'i dylwyth yn wyth neu naw :
Dan oer hin yn dwyn y rhaw—mewn trymwaith,
Bu ganwaith heb giniaw.

"Aml y mae yn teimlo min
Yr awel ar ei ewin.

"Noswylia yn iselaidd,
A'i fynwes yn bres oer braidd.

"Edrych yn y drych hwn dro—
Yr galon graig i wylo."

Ac yn holl hanesiaeth y byd, pwy nas edmyga'r gwr a roddodd ei einioes yn aberth dros ei wlad a'i genedl ?

Onid y teimlad neu'r *sentiment* hwnw a elwir yn wladgarwch wnaeth enwau Robert Bruce, Wallace, William Tell, Llywelyn ein Llyw Olaf, ac Owen Glyndwr, yn enwau i enyn tân trydanol yn mynwes pob un ohonom hyd heddyw ?

Y mae teimladau dwfn y galon wedi gorchfygu'r mynyddau bàn, wedi gorthrechu tònau geirwon, wedi chwerthin yn nanedd y fagnel a'r cledd, ac wedi troi'r elfen dân yn awyrgylch cân a moliant cyn hyn.

Ond eto, gwelwn wrth y planhigyn mai dim ond rhyw elfen ddechreuol o deimlad sydd yn bodoli ynddo ef.

Yn y creadur, cawn ddilyn dadblygiad y gallu o deimlo o'r trychfilyn lleiaf i fyny hyd at gyfeillgarwch swynol ac ymarweddiad caruaidd anifeiliaid fel y ci, neu'r ceffyl, neu'r cawrfil (yr *elephant*).

Po uchaf y dringwn, mwyaf oll o deimlad a gawn. Y mae rhai creaduriaid bychain yn byw yn y dwfr nad ydynt ond rhyw sypiau bychain o *jelly*, heb fawr gwahaniaeth rhwng pen na chorff, ac heb draed ac heb ddwylaw : yn hytrach, y maent oll yn draed ac oll yn ddwylaw. Y maent yn ffodus iawn yn y ffaith nad oes wahaniaeth yn y byd ganddynt pe trwy ryw ddamwain y collent dair rhan o bedair o'u corpws ; ànt yn mlaen i fywmor ddedwydd ag erioed ar y chwarter arall ; ac odid na fydd yno ymladdfa cyn pen ychydig amser rhwng y chwarter hwn a'r tri chwarter arall a dorwyd ymaith. Y mae hyn yn dangos nad yw poen neu bleser yn elfen bwysig iawn yn hanes y creaduriaid bychain hyn.

Ond am y ci, neu'r ceffyl, gwyddom i gyd y boen neu'r pleser y mae'r creaduriaid ffyddlawn hyn yn ddarostyngedig iddynt.

Am ddyn, eto ; gwyddom yn dda, po fwyaf y gwrteithia ei hun yn gorfforol neu feddyliol, mwyaf i gyd o bleser neu o boen a fedr gael.

Y mae addysg dda yn ein galluogi i fwynhau cerddoriaeth, i fwynhau llenyddiaeth dda, i garu barddoniaeth, i weled y tlws a'r hardd mewn natur ac mewn dyn ; galluoga ni i sylwi ar holl wyneb y ddaear, a gweled fel y mae'r nefoedd yn ei hardderchogrwydd yn datgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegi gwaith Ei ddwylaw Ef.

Po fwyaf yr ydym byw, mwyaf i gyd ellwn deimlo o bleser ; ond mwyaf i gyd hefyd ellwn weled o drueni ar y ddaear. Gwelwn ystryd lle preswylia cyfoeth a lloniant a llawenydd ; ond y mae yma hefyd ystrydoedd culion y tlodi, a'r siom, a llygredigaeth : ffau'r tywyllwch dyga, a phechod, a phoen.

Po fwyaf yr ydym byw, mwyaf oll o dànau newyddion roddir i delyn ein bywyd : tànau a roddant allan weithiau nodau llawen megys cân seraffiaid Gwynfa, a thànau ereill a'u nodau fel adsain ochain damnedigion coll.

Ond dywedwch, efallai, mai ar y teimlad crefyddol yr oeddwn i siarad, ac nid ar deimlad yn gyffredinol, a phaham nad äf at fy nhestyn bellach ?

Braidd na feiddiaf ddyweyd wrthych fod pob gwir deimlad yn deimlad crefyddol ? Mae teimladau'r galon iach a dilwgr mewn *harmony* tragywyddol â Duw ! Efallai mai diffyg teimlad o unrhyw fath yn y byd yw bai mawr pob math o addoliad y dyddiau hyn. Mae *sentiment* dipyn allan o ffasiwn, yn enwedig gyda'r Sais : y mae arddangos tuedd i edmygu natur yn cael ei ystyried fel ychydig wendid yn y neb a ddrwgdybir o hyny ; a braidd nad ydyw addoli'r Anweledig Mawr mewn parch ac ofn dyladwy yn cael ei ystyried dipyn yn *out-of-date* mewn dyn.

Mae Cardinal Newman, awdwr "Lead, kindly Light," yn hanes dadblygiad ei gredo, yn dyweyd mewn rhyw fan : "Pa beth bynag am natur, a pha beth bynag a gredaf am ddyn, un peth yr wyf yn fwy sicr ohono na'r ffaith fod genyf draed a dwylaw—fod Duw yn bodoli !

"Mae Duw yn fyw !" meddai Job, er yn nghanol ei gyni a'i ofidiechyd dygn.

Mae Duw yn fyw ! Yn mhen mis eto, awn am dro dros y wlad, pan fo'r glaswellt unwaith eto yn dechreu gwisgo'r fro â gwyrddemau tyrdd ; pan fo natur ieuanc unwaith eto yn ail-adrodd ystori Eden ; pan o llygad y dydd wedi ei osod ar ddôl a bryn, megys *stamp* aur ac arian y Creawdwr mawr Ei Hunan ; a'r briallu, a'r meillion, a'r crinllys, yn ymddangos yn nghilfachau'r coed a'r caeau, ac yn edrych mor ffres ac mor newydd ag y gwnaent y gwanwyn cyntaf erioed ! Nis gall yr holl brydferthwch hwn dd'od i fôd ohono ei hun : y mae yna Rywun Mawr, anfeidrol Ei allu, anfeidrol brydferth Ei feddwl, y tu ol i'r cyfan gyd. Y mae gardd yn golygu bodolaeth y garddwr. Y mae natur yn golygu Duw.

Mae Duw yn fyw! Ac yn wyneb y ffaith ofnadwy bwysig hon, pwy na fedr blygu glin mewn addoliad iddo Ef!

Wanwyn ar ol gwanwyn, y mae'r ddaear yn adrodd ei gweddi flodeuog; y mae'r adar mewn mil o goedydd yn canu mawl; y mae'r ser yn gorymdeithio asur y nefoedd ar eu neges dros eu Tad; a'r cyfan, mi dybiaf, i ddysgu dyn y Teimad Crefyddol.

(*I'w barhau*).

ECHRYSLONRWYDD RHYFEL.

O FEWN eich llysoedd, dedwydd ydych chwi
Sy'n dwyn y camwedd dan yr enw bri;
Eich glythoedd esmwyth tynwch at y tân,
A chyda'r offer per tarewch y gân;
A'r cauadleni o bortforaidd wawr
Gollyngwch dros y ffenestr amliw fawr,
A hongier penaf ysblanderau'r byd
O'ch amgylch, arwyddluniau rhwysg i gyd.
A! syniwch rywbeth am y dyrfa fawr
Sy'n gorwedd heno ar y rhewllyd lawr,
Yn tawel farw yn eu gwisgoedd gwaed,
Heb ond y graig ddeifiedig dan eu traed,
A gwyntoedd nef yn gwywo dan eu cwyn,
Heb seren fry a ddeffry er eu mwyn;
Anfonedigion eich uchelfryd chwi,
Eich cyflogedig weision, feibion bri.

* * * * * * *

O am luniedydd ffyddlon, a dynai'r drych di-wawr,
Hyd at y byw a'r galon, a hongia i maes yn awr,
A barai wel'd yr aelod ar ol ei gado'n wyw—
Braich gref,—draw ar y gwaelod yn crynu, ac eto'n fyw,—
A allai daflu'i chryndod, fel bywyd, ar ei len—
Barasai i lawer syndod, fuasai gynt mor wen—
Nes peri i tithau 'i chanfod yn duo hyd y gwaed,
Tra ilun rhyw gadfarch uchod ar ddisgyn arni â'i draed.

O am luniedydd uchel a dynai ar ei len
Wirionedd erchyll Rhyfel, A! nid y rhwysgfawr ben
Yn gyru heibio'r rhesau, gan floeddio, hardd a gwych;
Ac nid y llachar rengau yn gor-oleuo'r drych,

Ac nid "y tro ysblenydd," a'r gwych wrolwaith draw,
Ac nid y rhuthr dieilfydd er clwyfau bron a llaw ;—
Ond tyfol fryniau'r meirwon, a'r byth-lydanol ddrych
Ar grugiau y marchogion, dan ddrylliau'r harnais gwych,
A gobaith mil o weddwon yn cwympo ar bob awr,
A'u cyfaill mwyaf ffyddlon yn gwingo ar y llawr ;
Ac er ei ddiaelodi, a i roi dan fôr o draed,
Y fagnel yn ei nodi, ac yntau yn ei waed
Yn gwaeddi ar greulondeb, ar ddystryw, byd a nef,
A'r belen dân yn ateb i mewn i'w galon ef.
Hyn yw gwirionedd Rhyfel, ac O, na cherfid ef
Yn nyfnaf liwiau'r gorwel a bythol wawr y nef,
Pe y goddefai'r Nefoedd i'r gwae-ddarluniol bin
Gael yn eu Dwyfol wawroedd ei drochi fyth i hyn.
Na roed y bywyd-luniau i blaid y frwydyr fawr,
Gyferbyn â'u calonau i hongian onid awr.

ISLWYN.

DYRO I NI HEDDYW EIN BARA BEUNYDDIOL.

PA mor gyfarwydd ydym â'r ymadrodd yma ! Pa mor aml y mae y geiriau ar ein gwefusau ! Pa mor fynych y clywn hwy yn cael eu llefaru gan ereill ! Ac eto, pa mor bell, yn fynych, y mae eu gwir feddwl o'n calonau ! Pa mor ychydig y mae y rhan fwyaf ohonom wedi sylweddoli eu hystyr ddyfnaf a mwyaf gwirioneddol ! Pa mor fach o sylw a delir genym i'r hyn feddyliai yr Iesu pan yn llefaru y geiriau adnabyddus ac awgrymiadol yma ! Mae hyn yn dangos pa mor ddifater, esgeulus, ac arwynebol yw llawer iawn o'n darlleniad o'r Ysgrythyrau. Yr ydym mor gyfarwydd â llawer ohonynt, wedi eu darllen, neu glywed eu darllen, mor aml, fel nad ydym yn cymeryd amser ac amynedd i dreio cael allan eu gwir feddwl, neu yr ydym yn cymeryd yn ganiataol fod yr ystyr gyffredin a roddir iddynt mor berffaith ac awdurdodedig, fel nad ydym yn cymeryd y drafferth i chwilio allan a ydyw yn unol â ffeithiau ai peidio.

Gadewch i ni, ynte, i geisio cael allan wir ystyr y geiriau hyn, a'r gwersi ymarferol maent yn ddysgu i ni yn ein bywyd beunyddiol.

"Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol." Ar ran pwy mae y deisyfiad yma yn cael ei wneyd ? Wel, ar ran pawb oll yn ddiwahaniaeth, yn mhob man, ac yn mhob cyflwr o gymdeithas, fel y mae y gair "ein" yn ein dysgu. Pan ystyriom y pwnc yn ofalus, mae y deisyfiad i roddi i ni ein bara beunyddiol yn ymddangos ar y cyntaf fel pe bai yn beth hollol ddiangenrhaid. Mae y rhan fwyaf ohonom yn cael ein digoni âg ymborth, o ddydd i ddydd, o wythnos i wythnos, ac o flwyddyn

i flwyddyn. I'r cyfoethog sydd wedi cael eu geni â'r llwy aur yn eu genau, a'u magu mewn cadair arian, mae eu bara beunyddiol yn dyfod heb un gofal na gofid ar eu heiddo hwy. Mae eu rhieni neu eu cyndeidiau wedi casglu cymaint o gyfoeth y byd hwn ar gefn y gweithiwr tlawd, trwy ffyrdd gonest neu anonest yn ein golwg ni, ond ydynt mewn gwirionedd oll yn anonest, fel nad oes eisieu iddynt hwy symud bys na bawd, llaw na throed, cyn cael eu digoni â'r danteithion mwyaf drudfawr. I'r rhai hyn, gallem feddwl ar y wyneb, y mae yn beth hollol ddialw am dano i weddïo ar Dduw i roddi iddynt eu bara beunyddiol, pan y maent yn cael eu geni a'u magu mewn llawnder.

Mae geiriau yr Iesu i'r dosbarth yma, fynychaf, yn hollol ddiystyr, am nad ydynt erioed wedi cael achos i ystyried beth feddyliai wrthynt. Y maent hwy yn nghanol eu llawnder; nid ydynt erioed wedi dyoddef angen, na dyfod yn agos iddo, felly, nid yw o wahaniaeth ganddynt pa un a fydd ereill yn cael eu digoni âg ymborth ai peidio—pa un ai byw neu ynte marw wnant yn yr ymdrech am gynaliaeth. Nid wyf yn dyweyd fod pob dyn cyfoethog yn ymddwyn yn y modd yma, oblegid y mae rhai eithriadau rhagorol; ond mae arnaf ofn mai dyma yw ymddygiad y mwyafrif mawr ohonynt tuag at y rhai hyny sydd mor anffodus a bod yn dlawd, a'r rhai sydd mewn gwirionedd yn eu galluogi hwy i gael byd da a helaethwych beunydd.

Ar y llaw arall, mewn gwrthgyferbyniad llwyr i'r dosbarth hwn, mae yna filoedd, os nad miliynau, o'n cyd-ddynion, y rhai, heb fod trwy un ffaeledd o'u heiddynt eu hunain, ydynt yn byw mewn angen parhaus, a'r rhai nad ydynt yn gwybod o ba le y mae yr ymborth angenrheidiol i gynal corff ag enaid yn nghyd, heb son am ddim yn rhagor, i ddyfod. Mae yn wir fod yna lawer yn y cyflwr hwn, oherwydd eu beiau eu hunain yn benaf, megys anghymedroldeb a'r cyffelyb; ond eto mae y ffaith yn aros nad yw y rhai hyn ond nifer fechan mewn cymhariaeth i'r rhai sydd yn yr un cyflwr trwy gael eu gormesu, eu gwasgu a'u llethu i lawr, gan eu meistriaid tybiedig, neu ydynt yn gwneyd i fyny rengoedd byddin fawr y digyflogedig, a thrwy hyny y diwaith (*unemployed*). Oblegid fel mae pethau yn bod yn bresenol, nid yw y dyn tlawd mewn gwirionedd yn rhydd—nid yw mewn gwirionedd yn berchen ar ei fywyd neu ei einioes ei hunan, ond mae yn gorfod dibynu ar fympwy y cyfoethog i roddi iddo gyfleusdra i weithio neu beidio, ac felly i fyw neu i farw. Mewn gair, mae bywyd a marwolaeth y tlawd yn nwylaw y cyfoethog. I'r rhai hyn nid yw ond ffug, nid yw ond gwatwar i geisio ganddynt ddeisyf ar Dduw am eu bara beunyddiol, pan y maent yn gwybod yn eithaf da fod hwnw yn dibynu ar y bobl sydd yn rheoli masnach a'r wlad yn gyffredinol, hyny yw, y cyfoethog. Mae hyn yn dangos i ni fod cyflwr presenol cymdeithas yn bwdr mewn llawer ystyr, fod ei sylfaen ar y tywod, ac fod yna alwad ar bawb—ar bob un ohonom ni yn unigol—i wneyd eu rhan i gyfnewid sefyllfa bresenol pethau—i sylfaenu cymdeithas ar y graig.

Yn bresenol, mae cyflwr ein gwlad a gwledydd ereill yn druenus mewn llawer modd. Ar un llaw, yr ydym yn gweled y cyfoethogion a'r segurwyr, ychydig mewn nifer, yn byw mewn llawnder, mewn

gwychder, mewn rhialtwch, ac mewn oferedd, llawer ohonynt, a hyny braidd yn gyfangwbl ar gefn y gweithwyr tlodion, oblegid llafur neu waith yw mam pob cyfoeth; ni all arian byth greu neu gynyrchu arian ohonynt eu hunain, ond mae'n rhaid bob amser cael llafur cyn gwneyd hyny, ac ni fyddai cyfoeth tybiedig ein byd o un gwerth oni bai am lafur parhaol y gweithiwr. Ar y llaw arall, yr ydym yn gweled y tlawd, a'r cymharol felly, yn byw mewn llafur parhaus, a llawer ohonynt mewn angen am angenrheidiau bywyd, er mwyn cadw y dosbarth blaenaf a enwais yn eu sefyllfa bresenol. Eu tynged, pan nad yw yn waeth fyth, yw gwaith, gwaith, o foreu hyd hwyr, o ddydd i ddydd, o wythnos i wythnos, ac o flwyddyn i flwyddyn, trwy eu bywyd, heb un cyfleusdra i ddiwyllio eu hunain yn foesol, yn feddyliol, neu yn grefyddol. Er mwyn boddloni gwanc y cyfalafydd (*capitalist*), a diwallu angenrheidiau eu bywyd eu hunain, maent yn gorfod dechreu ar eu gwaith pan yn yr oedran y dylent fod, ac am lawer o amser yn hŵy, yn parotoi eu hunain ar gyfer ymdrech bywyd yn ysgolion ein gwlad. Y mae y gwaith yn gwneyd ei effaith ar eu cyrff, pan maent eto yn wan, yn dyner, ac heb haner ddadblygu i'w llawn nerth, a'r canlyniad yw fod henaint yn dyfod arnynt yn mhell cyn y dylai, pe baent yn byw o dan amgylchiadau iawn. Yn myd y meddwl a'r ysbryd nid ydynt ond babanod, a pha ryfedd, pan ystyriom nad ydynt erioed wedi cael cyfleusdra i ddadblygu y galluoedd yma yn eu natur. Pan edrychom ar eu hanedd-dai neu eu preswylfeydd, mae yn warth i wareiddiad y 19eg ganrif fod bodau dynol yn gorfod byw yn y fath dylcau; yn wir, mae tai anifeiliaid y cyfoethog yn rhagori arnynt yn aml.

Pwy ryfedd ynte, fod llawer o'u deiliaid, pan yn dychwelyd oddiwrth eu gwaith am y dydd, yn treulio yr ychydig amser o hamdden sydd ganddynt cyn myned i orphwys yn y dafarn, neu ryw le cyffelyb, lle, er cymaint eu drygau, y cânt ychydig gysur a seibiant na allant gael gartref. Pa ryfedd, yr wyf yn gofyn, eu bod yn treio boddi eu gofid a'u tlodi yn y gwirodydd gwenwynig—yn yr uffernau daearol yma? Mae amgylchiadau y bobl hyn braidd yn eu gorfodi i fod yn feddwon; a chyn y gellir gwneyd i ffwrdd â meddwdod yn llwyr, mae yn rhaid newid cyflwr cymdeithas yn gyfangwbl—mae yn rhaid ei sefydlu ar lafur gonest, mae yn rhaid rhoddi yr un siawns i bawb, a gwneyd i ffwrdd â'r gwahaniaeth mawr presenol rhwng y rhai sydd wedi eu geni i lawnder a hawddfyd ar un llaw, ac i dlodi a gofid ar y llall.

Nid yw cyflwr presenol llawer o'n gweithwyr a'r rhai diwaith, yn enwedig yn ein trefydd mawrion, yn ddim gwell nag eiddo slafiaid—yn wir, yr wyf yn tueddu i gredu ei fod yn waeth mewn llawer iawn o amgylchiadau, oblegid mae yr olaf fynychaf yn cael cyflawnder o ymborth, fel ag o waith, ac hefyd breswylfeydd cymhwys i fyw ynddynt, yr hyn nis gellir ddyweyd am lawer o'r blaenaf. Maent hefyd yn aml yn cael eu trin yn well, ac nid yw rhyddid y tlotaf o'n cyddynion, sydd mewn enw yn rhydd, ond ffug a thwyll yn unig—mewn gwirionedd, fel y dywedais o'r blaen, nid ydynt yn berchen hyd yn nod ar eu cyrff eu hunain.

Tebyg y bydd y rhan fwyaf o'm darllenwyr yn barod i ddyweyd fy mod wedi tynu darlun rhy ddu o gyflwr cymdeithas yn bresenol, ac wedi paentio pob un o'r ddau ddosbarth mawr wyf wedi enwi y tlawd a'r cyfoethog – yn ormodol. Ond mae astudiaeth o'r cwestiwn am rai blynyddau bellach wedi fy argyhoeddi fod pethau yn debyg fel ag wyf wedi eu desgrifio. Ni charwn, ac yr wyf yn teimlo yn sicr nad wyf wedi, gorddyweyd neu wneuthur camddefnydd o'r ffeithiau fel y maent yn amlygedig i ni yn ein trefydd mawrion, oblegid yn y rhai hyn y mae effeithiau sylfaen bresenol cymdeithas ar y ddynoliaeth i'w gweled yn eu man gwaethaf.

Mae ffeithiau a meddyliau fel hyn yn profi i ni ar unwaith pa mor fychan yw yr effaith mae crefydd Iesu Grist wedi ei gael ar y byd mewn gwirionedd, pa mor ychydig y mae wedi gwreiddio yn nghalonau dynion, a pha mor arwynebol a disail yw crefydd llawer o'n cyd-ddynion yn bresenol.

Mor fychan yw gwir grefydd yn ein byd ni! Nid yw yr hyn sydd yn myned o dan yr enw Cristionogaeth yn ddim gwell, mewn llawer o amgylchiadau, na'r Atheistiaeth waethaf—atheistiaeth yr ewyllys – oblegid nid yw credöau, heb weithredoedd yn cyfateb iddynt, o un gwerth. Nid yw gwir grefydd Iesu Grist, y proffwyd a'r chwyldröwr mawr o Nazareth, wedi cael treial gwirioneddol yn y byd eto; nid ydym wedi cael cyfleusdra i weled a yw yn alluog i adffurfio (*regenerate*) y byd, i roi yr un cyfleusderau i, ac i wneuthur cyfiawnder â phawb. Er cymaint y proffesu a'r pregethu sydd ar Gristionogaeth, ychydig yw yr arwyddion fod ysbryd a chrefydd Iesu yn meddianu y mwyafrif mawr o'n cyd-ddynion. "Trecha treisied, gwana gwaedded," yw arwyddair y rhan fwyaf ohonom o hyd, pa un ai fel unigolion neu deyrnasoedd

Canfyddir hyn yn amlwg iawn yn y dyddiau presenol, yn ymdrech y wlad hon i lethu y Boeriaid, a dwyn eu gwlad a'u rhyddid cenedlaethol oddiarnynt. Gosodir ariangarwch, gwag-ogoniant, mawredd bydol, dialedd, ac hyd yn nod lladrad, ar enw gwladgarwch, o flaen cyfiawnder, trugaredd, cariad, rhyddid, heddwch, ac ewyllys da. A gwaeth hyd yn nod na hyn, mae dynion a alwant eu hunain yn ddysgyblion i'r Athraw Mawr, ag ydynt yn proffesu traddodi Ei genadwri i'r byd, yn cyfiawnhau, ac, nid yn unig hyny, ond yn pleidio y fath bethau a hyn. Pe bai Tywysog y Tangnefedd yn byw yn ein byd yn awr, beth, tybed, fuasai Ei ddedfryd ar y ffug-ganlynwyr hyn —ar y dysgyblion Mammon yma? Nid llai na hyn, mi dybiaf: "Gwae chwi, Ysgrifenyddion a Phariseaid, rhagrithwyr! canys tebyg ydych chwi i feddau wedi eu gwyngu, y rhai sydd yn ymddangos yn deg oddiallan, ond oddimewn sydd yn llawn o esgyrn y meirw a phob aflendid Ac felly chwithau, oddiallan ydych yn ymddangos i ddynion yn gyfiawn, ond o fewn yr ydych yn llawn rhagrith ac anwiredd. Gwae chwi, Ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr! canys yr ydych yn adeiladu beddau y proffwydi, ac yn addurno beddau y rhai cyfiawn," &c. Mawr yw y ffug a'r rhagrith sydd yn nodweddu ein bywyd, yn ei agwedd boliticaidd, gymdeithasol, a chrefyddol. Yr

ydym yn gweddïo ar Dduw i roddi i ni ein bara beunyddiol, ac eto y mae ugeiniau, os nad canoedd, o'n cyd-ddynion yn marw o newyn bob blwyddyn yn y wlad hon yn unig, heb ein bod ni yn symud na llaw na throed i'w hachub. Maent yn cwympo o dan yr olwynion yn ymdrech fawr bywyd, heb ychydig, os dim, sylw yn cael ei wneyd ohonynt.

Gwelais ddarlun yn ddiweddar, yr hwn a wnaeth ddwyn i fy meddwl mewn modd byw iawn yr ymdrech yma. Cymer y ffurf o gerbyd enfawr, yn cael ei lusgo neu ei dynu gan lu anferth o ddynion, y rhai ydynt yn cynrychioli y gweithwyr o bob math, tra yn y cerbyd y mae yr ychydig—y cyfoethogion segur sydd yn byw yn fras ar gefn y blaenaf, megys tirfeddianwyr, &c. Ond yr olygfa waethaf, fwyaf torcalonus a galarus ynddo, yw gweled un ar ol y llall o'r rhai sydd mor ffol a llusgo'r cerbyd, a chario'r baich, yn cwympo o dan yr olwynion, heb ond ychydig sylw yn cael ei dalu iddynt gan eu cyfoedion, am nad allant, a dim o gwbl gan eu gormeswyr, y rhai ydynt yn mwynhau ac yn pesgi eu hunain mewn gwychder a gloddest yn y cerbyd. Mae yn syn meddwl fod mwyafrif mawr y boblogaeth yn goddef i'r dosbarth atgas hwn i fyw yn segur fel yma ar eu traul, a'u gormesu yn ychwaneg at hyny. Ond felly y mae.

Nid yw ein gweddiau o un gwerth, o un lles, os na fyddwn ni ein hunain yn gwneyd ein goreu i ddwyn i ben yr hyn y gweddïwn am dano. Mewn gwirionedd, maent yn waeth na diles am eu bod yn dangos mai rhagrithwyr ydym, ac nad ydym yn ewyllysio o galon yr hyn yr erfyniwn am dano, ond ein bod yn gwneyd hyny yn unig am ei bod yn arferol neu yn boblogaidd. Mae Duw, yn Ei ddoethineb mawr, wedi gweled yn dda i ddwyn i ben ei fwriadau a'i gynlluniau trwy gyfrwng dyn—trwy eich cyfrwng chwi a minau. Gŵyr Ef cyn i ni erfyn arno beth sydd yn angenrheidiol arnom yn llawer gwell na ni ein hunain, a'r hyn gâr i ni ei wneyd yw cydweithio âg Ef er dwyn i ben y cynlluniau yma. Nid yw o gymaint pwys i barablu y geiriau wrtho; yn wir, nid yw o un lles, ond yn hytrach i'r gwrthwyneb, os na fyddwn ni yn gweithredu yn eu hysbryd er dwyn i ben yr hyn y gweddïwn am dano. Mae yn rhaid i ni gydweithio â Duw, ynte, os ydym i fod yn ddidwyll, diragrith, a gonest, yn ein herfyniadau arno; am na fydd iddo Ef ddwyn dim i derfyn heb ein cydweithrediad ni, h.y., mor bell ag y mae amgylchiadau cymdeithasol yn myned.

Pan yr ydym, ynte, o Sul i Sul, neu o ddiwrnod i ddiwrnod, yn gofyn i'n Tad o'r nef am iddo Ef, yn Ei gariad mawr, i'n cyflenwi â'n bara beunyddiol; neu, mewn geiriau ereill, â'r holl angenrheidiau hyny ydym mewn angen am danynt er cynal corff ac enaid yn nghyd, ac i wneyd bywyd yn bleser yn hytrach nag yn faich, pa beth ydym yn feddwl mewn gwirionedd? Ond i ni edrych ychydig yn fwy manwl i'r cwestiwn, canfyddwn ar unwaith mai ni ein hunain, ac nid Duw, sydd mewn angen o'r anogaeth neu'r erfyniad yma. Mae Ef wedi ein cyflenwi â digonedd—digon i lwyr ddiwallu angenion pawb—ond i ni ddefnyddio yn iawn gyfoeth ac adnoddau y ddaear. Pe baem yn gwneyd hyny—pe baem yn dilyn cyfraith Crist fel y dylem—ni fyddai

son am angen na newyn o un math yn un man; ac nid hyny yn unig, ond gwneid i ffwrdd â'r baich mae yr ymdrech am gynaliaeth yn bresenol yn osod ar ddyn, yr hwn, trwy hyny, a gawsai hamdden i ddadblygu a gwrteithio ei gyneddfau uchaf, ac i fyw yn myd y meddwl, yr ewyllys, a'r serchiadau. Mae y bai, ynte, yn gorwedd arnom ni, neu, yn hytrach, efallai, a'r ein cyfundrefn gymdeithasol bresenol, yr hon sydd yn gwneuthur mawrion a chyfoethogion o'r ychydig ar draul y llaweroedd; yn cadw y blaenaf mewn gwychder a mwyniant parhaus, tra yn tynghedu yr olaf i dlodi a newyn, i alar ac i ofid. Mae pawb o'i blant yn gydradd ger bron Duw—mae y tlawd mor sanctaidd, mor gysegredig, ac mor anwyl ganddo ag ydyw y cyfoethog; ac nid yw yn debyg Ei fod Ef wedi bwriadu i un dosbarth gael cymaint yn well chwareu teg (fel y dywedwn) yn y byd hwn na'r llall. Mae y rhan fwyaf o'n duwinyddion a'n dysgawdwyr crefyddol hyd yn hyn wedi bod yn treio anog y tlawd i fod yn foddlawn ar eu cyflwr presenol, trwy addaw mwyniant tragywyddol iddynt yn y byd a ddaw; ac, fel mae gwaethaf y modd, maent wedi bod yn rhy lwyddianus yn yr ymdrech. Ond, a chymeryd yn ganiataol fod hyn yn wir, nid yw yn un rheswm paham y dylai unrhyw ddosbarth o blant y Tad trugarog a graslawn ddyoddef cam yn mhob modd er mwyn boddloni trachwant yr ychydig sydd yn bresenol yn rheoli.

Cyhyd, ynte, ag y byddo cymdeithas yn sylfaenedig ar yr egwyddor fod elw neu drachwant yr unigolyn yn fwy pwysig na lles y llaweroedd, nid oes ond ychydig obaith am wir welliant parhaol yn nghyflwr ein byd. Yr unig sylfaen sicr i adeiladu arni yw yr hon sydd yn gwneuthur pob dyn a dynes yn amcan (*end*) penodol ar ei ben ei hun; yn rhoi yr un cyfleusderau i bawb, ac yn gwneuthur pawb yn gydradd yn ngolwg y llywodraeth wladol. Rhaid i ni suddo ein budd a'n helw ein hunain yn lles y wladwriaeth (*community*), a byw yn y fath fodd fel ag y byddo ereill hefyd yn gallu byw gyda ni—"Live, and let live," fel y dywed y Sais. Mae yn ofynol cael mwy o ysbryd yr Athraw bendigedig o Nazareth, yr Hwn a aeth oddiamgylch gan wneuthur daioni i bawb yn ddiwahaniaeth; mae yn rhaid i'w addysg Ef, yr Hwn a ddywedodd, "Gwnewch i ereill fel y dymunech i ereill wneuthur i chwithau," drwytho y byd yn fwy trwyadl cyn byth y gellir newid gwedd cymdeithas yn y fath fodd fel ag y byddo cyfiawnder a barn yn teyrnasu, heddwch yn ffynu o fôr i fôr, ac o'r afon hyd derfynau'r ddaear, a phawb yn cael eu diwallu â'u bara beunyddiol, ac â holl angenrheidiau ereill bywyd. Yna, ac nid cynt, fe ddaw meddwl ac ystyr newydd, a'r unig wir rai, i'r geiriau bendigedig hyny o eiddo Iesu: "Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol"—y rhai ydynt mor aml ar ein gwefusau, ond, y mae lle i ofni, mor bell oddiwrth ein calonau. Os nad yw pob un ohonom yn byw, neu, beth bynag, yn ceisio byw, yn unol âg addysgiadau Iesu, nid yw ond ffug a rhagrith o'r fath waethaf i ni ddefnyddio Ei eiriau Ef pan yn erfyn ar ein Tad o'r nef. "Teilwng i'r gweithiwr ei fwyd," meddai Ef; a phwy bynag ohonom nad yw yn talu i'w weithiwr neu ei wasanaethddyn hûr ar yr hon y gall ef a'i deulu fyw mewn cysur a chyflawnder (*living wage*, yn

iaith y Sais), neu a ydyw yn gorweithio neu yn camdrin mewn unrhyw fodd ei gynorthwywyr cyflogedig, ni all mewn gwirionedd, heb wneyd camddefnydd ar eiriau, alw ei hun yn ddysgybl i'r Athraw Mawr. Oblegid pwy bynag sydd yn *gwneuthur* Ei ewyllys Ef, ac yn *cadw* Ei orchymynion, hwnw yn unig sydd yn ddysgybl Iddo mewn gwirionedd. Mae yr amser wedi myned heibio pan y gallwn drigo yn mharadwys y ffol yn hwy ; mae haul mawr gwybodaeth a chyfiawnder yn dechreu tywynu o'n hamgylch, ac o'i flaen mae gorthrwm a thrais a phob anghyfiawnder yn cilio fel niwl y boreu. Mae yr amser wedi pasio hefyd i bob ffug, pob twyll, a phob *sham*, ac y mae yn rhaid i ni yn awr wynebu ffeithiau ac hanfodion (*realities*) bywyd. Bydded ein bod ni, bob un ohonom, yn cael ein hunain yn gwynebu dyrysbynciau bywyd yn wrol ac yn onest, heb geisio gochel y canlyniadau neu'r casgliadau sydd yn ymddangos i ni yn iawn trwy ddefnyddio brawddegau teg a melfedaidd ; eithr bydded i ni, yn hytrach, i siarad allan yn hyf a diofn yr hyn mae ein cydwybodau yn ddyweyd wrthym sydd yn unol â chyfraith Duw.

Yr wyf wedi ysgrifenu hyn o eiriau, yn fwyaf neillduol, nid am fy mod am eich cael chwi i gydweled â mi yn mhob peth (byddai hyny, er, efallai, yn dda, braidd yn anmhosibl i bawb), ond er mwyn cyfeirio eich meddyliau at y pynciau a'r cwestiynau pwysig wyf wedi geisio ymdrin â hwynt, a cheisio genych i roi eich sylw manylaf iddynt, a dyfod i benderfyniad terfynol (mor bell ag y mae hyny yn bosibl) arnynt. Nid oes dim i'w ofni oddiwrth y bobl sydd yn rhoddi eu meddyliau ar waith ; mae y perygl yn gorwedd ar du y rhai difater a'r cysgadurion. Sicr yw, os yw Cristionogaeth yr eglwysi i lwyddo, fod yn rhaid iddynt dalu llawer mwy o sylw i'r cwestiynau hyn yn y dyfodol nag y maent wedi wneyd yn y gorphenol, ac hefyd i ddangos mwy o gydymdeimlad tuag at y dosbarth gweithiol. Ac mae arnaf ofn ein bod ni fel Undodiaid, y rhai ydym fynychaf ar y blaen, ar ol ar y pen hwn. Gyda'n cyffredinolrwydd, yr hwn sydd yn gweddu i'r byd hwn yn ddim llai nag i'r nesaf, dylasai ein heglwysi fod yn arwain y flaen-gad, ond yn lle hyny y maent yn oedi yn y tu ol i'r fyddin. Mae Eglwys Loegr yn mhell o'n blaen mewn astudiaeth o'r pynciau yma. Gall fod yr Eglwysi Iawnffyddol yn gul yn eu duwinyddiaeth, ond mae ein heiddo ni yr un mor gul ac anoddefgar yn ei gwleidyddiaeth (*politics*). Edrychir ar heresi mewn diwygiad cymdeithasol (*social reform*) fel camwedd mawr gan y rhan fwyaf o'n pobl. Mae ein heglwysi yn foesol yn mreichiau cwsg, ac mewn angen am ddeffroad ac adfywiad newydd.

UNUSQUISQUE PRO OMNIBUS.

Y BREGETH sydd yn cael ei byw yw y bregeth fwyaf hyawdl o bob pregeth.—*Canon Liddon.*

DOETHINEB bywyd yw ceisio rhwystro pob drwg a allwn, a cheisio defnyddio pob peth anocheladwy i'r pwrpas goreu.—*John Ruskin.*

DADL YNYSGAU.

YMAE yn amheus iawn genyf, Mr. Gol., a ydyw yn ddoeth i mi ysgrifenu rhagor ar y pwnc uchod. Dywedais yn fy llythyr cyntaf nad oedd genyf un dymuniad i aflonyddu ar y brodyr yn Ynysgau, a gosodais ger bron gymaint ag a dybiwn yn angenrheidiol i egluro fy marn. Y mae Mr. Williams yn amheu rhai o fy ngosodiadau, ac nid tebyg y daw efe a minau i gytuno â'n gilydd. Yr ydym yn naturiol yn cymeryd golwg wahanol ar yr helynt, gan ein bod wedi ein dwyn i fyny mewn dau awyrgylch gwahanol. Dygwyd ef i fyny mewn awyrgylch ffafriol i anghofio achos yr ymrafael a'i ganlyniadau; a minau mewn un a fyddai yn awr ac yn y man yn cael achlysur i fyned dros yr holl hanes—oblegid nis gallai lai na bod yna deimladau yn ymylu ar fod yn chwerw gan rai a gredent eu bod wedi cael cam mawr. Adwaenai fy nhad y Parch. T. B. Evans, a gwyddai ei hanes ef a'i dylwyth; adwaenai, hefyd, lawer o'r rhai fuont yn achlesu'r achos newydd yn Nhwynyrodyn. Yr wyf finau yn naturiol yn credu tystiolaeth fy nhad, ac yr wyf yn credu fod ganddo lawn cystal cyfleusdra i wybod y gwir ag oedd gan "Rees a Thomas."

Dywed Mr. Williams mai "parhad o eglwys henafol Cwmyglo" oedd Ynysgau; a dywedaf finau, eto ac eto, fod eglwys Aberdar yn yr un fel yn gywir—"yn barhad." Adeiladwyd y naill fel y llall i ateb cyfleusdra'r addolwyr. Ystyriai pobl eglwys Aberdar eu hunain yn aelodau gwreiddiol o Gwmyglo. A phaham lai nad oeddynt yn llawn cymaint felly a phobl Ynysgau? Nid oes un arbenigrwydd yn perthyn i Ynysgau. Y mae yn bosibl ddigon fod rhai o bobl Aberdar yn cymuno yn Ynysgau yn 1749-51; hyny yw, yn ystod yr adeg rhwng cau Cwmyglo ac agor eu tŷ newydd eu hunain. O ran syniadau, cymysg oeddynt, fel eglwys Ynysgau, er mai Calfin oedd Thomas Lewis, yr hwn oedd y gweinidog cyntaf (ac oherwydd ei Galfiniaeth y cafodd ymadael), yn ol tystiolaeth Mrs. Mary Rees Bevan, gweddw Owen Rees, yr ail weinidog, yr hwn oedd Armin. O barthed i'r "cywiriad" *tybiedig* o'r "dyfyniad anghywir," nid oes genyf ond gadael i'r darllenydd diragfarn i farnu rhyngom. Y mae'r darlleniad llawn ger bron yn rhifyn Chwefror, tudal. 47.

Yr wyf yn ddiolchgar i Mr. Gol. am gael golwg ar Adroddiad y *Charity Commissioners*, 1897. Darllenais ef yn fanwl, ond nid wyf wedi gweled un achos i newid fy marn. Yr wyf yn cytuno nad oedd gan yr "other chapels in the parish of Merthyr" un hawl yn y mater, ac nad oeddynt hwy yn "continuation" yn yr un ystyr ag Ynysgau ac Aberdar. *Ex parte statement*, fodd bynag, yw'r Adroddiad o syniadau pobl Ynysgau.

Ceir llythyr dyddorol ar bwnc "Dadl Ynysgau" yn y *Mon. Repository*, 1815, tudal. 191, 2—*q. v.*

Nid oes genyf fwriad i drethu rhagor ar eich gofod ar y pwnc hwn, Mr. Gol., nac ar amynedd eich darllenwyr. Byddwch wych.

R. J. J.

O.Y.—Ar ol ysgrifenu yr uchod, yr wyf wedi gweled bywgraffiad Mr. W. Williams, Penrheol, yr hwn a fu farw Mawrth 7fed, 1832, yn 62 oed, ac yno yr wyf yn darllen fel hyn:

"In the year 1810 or 1811, a young minister, supposed to be a Unitarian, was ordained at Ynysgoy, the doctrines promulgated there afterwards becoming obnoxious to the trustees and to the principal members of the congregation, they wished that a minister of Unitarian sentiments should sometimes take part in the services; this the minister refused," &c.—*Ch. Ref.*, 1833, p. 164.

RHYFEL A CHREFYDD.

Yr oedd llawer o wawdio yn Mhrydain Fawr yn amser y rhyfel fu gynt rhwng Ffrainc a Phrwsia, oherwydd fod yr hen frenin yn diolch i Dduw am ganiatau llwyddiant i'w arfau. Dyma dipyn o speng Mr. Punch ar ei eiriau ar y pryd:—

"Praise God, from whom all blessings flow,
Three thousand Frenchmen more laid low."

Mae'n rhyfedd mor hawdd ydyw gweled y brycheuyn yn llygaid ein brawd, ac mor rhwydd ydyw syrthio i'r amryfusedd o gymysgu Duw a Mammon, Crist a Belial, yn ein meddyliau. Onid Juvenal, y pendychanwr hwnw, neu ynte Horas, sydd wedi desgrifio'r dyn cyfoethog ac anrhydeddus yn Rhufain yn cyflwyno ei addoliad yn glir ac yn rheolaidd i Apolo; ond rhwng ei ddanedd yn isel yn gweddio ar dduwies yr ysbeilwyr, ac yn dywedyd fel hyn: "Laverna deg, dyro i mi y dalent i dwyllo heb gael fy nal, i gael y trechaf ar bawb y byddwyf yn ymwneyd â hwy, ac ar yr un pryd i ymddangos ger bron dynion yn gyfiawn ac yn sanctaidd. Rho fantell nos dros fy mhechodau, a chwmwl i guddio pob twyll a hoced a wnaf" (*Hor. Ep.* i. 57-61). Mor debyg yw llawer o Gristionogion y bedwaredd ganrif ar bymtheg i'r hen bagan hwn! Nid yw'r weddi yn cael cyfeiriad unionsyth at y nôd ymddangosiadol; ac nis dichon iddi, tra fo'r meddwl wedi ei feddianu mor gwbl gan yr ysbryd gwrthgyferbyniol.

Nid yw geiriau tarawiadol a nerthol y Parch. D. Davis, Castellhywel, ond adsain o linell Fersyl, hen bagan oedd wedi marw cyn geni Iesu Grist. Fel hyn y dywed y pagan:—

"Desine fata deûm flecti sperare precando" (*Virgil* A. vi., 376; ac fel hyn yr hen Ddafis:

"Er d'weyd paderau didawl,
Ni cheir Duw i ochor y d——l."

Y mae'r Parch. Edward Evans (1716-1798), un o gynweinidogion

Hen Dŷ Cwrdd, Aberdar, wedi rhoddi ymadrodd i'r un syniad mewn geiriau mwy trwsgl fyth, fel hyn :—

"Yr heretic aflan, afraslawn dy ryw,
Lladd dynion yn gyntaf a diolch i Dduw ;
Ragrithiwr c'wilyddus, ni dderbyn Duw'th fawl,
Na'th ddiolch cableddus, am weithred i dd——l."

T. C. U.

CASTELLNEDD.

(Llythyr y diweddar J. H. Rowlands, Yswain.—Cyfieithiad).

"Castellnedd, 13eg Ebrill, 1887.

"ANWYL SYR,—Yr wyf wedi derbyn eich llythyr, ac y mae'n ddrwg genyf nas gallaf roddi fawr manylion yn nghylch y Parch. David Davis. Yr wyf yn cofio yn dda ei glywed yn pregethu yn y capel yma pan oeddwn blentyn ; ac yr wyf yn cofio myned gyda fy nhad a mam i'w acsiwn pan y gwerthwyd ei bethau. Prynodd 'nhad gopi o Eiriadur Lladin Ainsworth yno, yn yr hwn yr ysgrifenodd, 'Bought at Mr. Davis's sale for five shillings, Nov. 20th, 1826,' ac y mae hwnw yn fy meddiant i yn awr. Yr wyf felly yn casglu iddo ymadael â Chastellnedd yn y flwyddyn hono. Nis gallaf roddi i chwi y *date* yr ymsefydlodd yn Nghastellnedd, ond gwn ei fod yn cadw ysgol, ac ar y *spot* lle yr wyf fi yn awr yn ysgrifenu—y Bank. Tynwyd yr hen Fank i lawr, ac fe'i hail-adeiladwyd yn 1858. Mae yr "Hall Court," a ddefnyddid gan ysgolheigion Mr. Davis, yn sefyll eto yn yr ardd. Ni chlywais erioed am gyfieithiad Coke's *Commentaries*—cyfieithiad, mae'n debyg genyf, i'r Gymraeg. Tebyg iawn y gallai y Parch. David Davis, Castle Howell School, Lancaster, roddi i chwi y wybodaeth yr ymofynwch am dani. Mab ydyw efe i'r Parch. Timothy Davis.

"Bu y Parch. G. H. Stanley yma yn weinidog am beth amser ; yr wyf yn meddwl mai ar ol Mr. Smith y bu efe yma.

"Byddai yn dda genyf allu rhoddi mwy o hysbysrwydd i chwi.

"Ydwyf, anwyl syr, yr eiddoch yn gywir,

"R. J. Jones, Ysw. J. H. Rowlands."

"O.Y.—Y mae darlun o'r Parch. D. Davis yn y Mechanics' Institute yma."

Mab oedd y Parch. D. Davis i Davis, Castellhywel. Bu farw yn Nghaerfyrddin Rhagfyr 4ydd, 1847, yn ei driugain mlwydd a deg, a chladdwyd ef yn Mynwent Heol Awst, lle mae maen coffa am dano. Merch iddo ef oedd gwraig gyntaf y Parch. Owen Evans, Cefncoed.—*R. J. J.*

PAPYRAU AP CYNON.

Wedi eu Harchwilio a'u Dethol gan HIRFAEN RHYS.

VIII.

Dringo'r Graig.

Yn ystod y blynyddau olaf hyn, ïe, er amser Ap Cynon, hyd y nod, y mae syniadau athronwyr ar ddadblygiad wedi cyfnewid gryn lawer. Mewn gair, y mae Dadblygiad wedi dadblygu; a phrin yr adnabyddai Darwin ei hun ei ddamcaniaethau pe y gallasai eu gweled y dydd heddyw.

Elfenol ac anmherffaith, ynte, o angenrheidrwydd, yw syniadau ein hen frawd ar y cwestiwn, er fod ganddo ddrychfeddwl pur glir am dano, ag ystyried yr amgylchiadau o dan ba rai yr ysgrifenodd ei Bapyrau gwasgaredig.

Ond, wedi'r cyfan, yn mha le y mae gwybodaeth berffaith i'w chael? Y mae'r meddwl, fel y corff, yn gwisgo ei ddillad—ei *syniadau* —ac O, mor aml y mae y ffasiwn yn newid. Pwy fedr osod ei fys ar bwnc, gan allu dyweyd yn ddifloesgni, Dyma wir gnewullyn y mater? Onid chwareu â *chregyn* glàn y môr wna'r dysgawdwyr mwyaf a welodd y byd erioed? a pha faint amgenach gwaith ydyw hwnw nag eiddo'r lleiaf ohonom faidd dreiglo *tywodyn* ar dòr ei law? Bychan, bychan yw y mwyaf ohonom; ac mor lleied a *wyddom* mewn gwirionedd!

Pa faint yn fwy o wybodaeth oedd yn meddiant Newton yn nghanol ei bapyrau, a'i ffugyrau, a'i ddeddfau natur, nag a feddai y bugail yn nhawelwch dystaw penau'r mynyddoedd, ac heb fedru gair ar lyfr, nag ysgrifenu yr un sill ar bapyr? I'w cymharu â'r môr diderfyn, y mae'r dyferyn a'r cwpanaid yr un faint—nid yw'r ddau ond *dim*. Ond yr ydym yn dwyn gofod a gyfiawn berthyn i'r Papyr nesaf a ddyfynwn, ysbryd yr hwn eisoes sydd wedi disgyn arnom wrth ysgrifenu y llinellau rhagarweiniol hyn. Yr ydym eto wedi cymeryd yr hyfdra o geisio *asio* at eu gilydd ddau neu dri phapyryn nas gwyddom yn iawn mo'r berthynas rhyngddynt.

"Mewn pentref bychan tawel ar làn y môr, a'i dai gwynion yn dysgleirio fel darnau o farmor gwyn ar lethrau geirwon y bryniau creigiog a oleddant yn raddol hyd at ymylon cwrel y tònau tragywyddol; yn y fan seml, heddychol hon y cefais y fraint o dreulio rhai o ddyddiau prydferthaf fy oes.

"Ar y traeth obry cyfyd craig byramidaidd enfawr ei phen hynafol uwch twrw byddarol y glas-wyrddion, weithiau a chwareuan

fel plant oddeutu ei thraed, bryd arall a ymladdant fel mil o ellyllon gwallgofus, gan fwrw ewyn eu cynddaredd yn drochion i fyny yn mhell uwch ei choryn. Yn nyddiau Mai, pan fo'r awel o'r gorllewin yn fwyn a balmaidd, a gwynder yr ŵyn ieuainc yn y grug o gylch y creigiau yn cydymgeisio â gwynder coron u'r mân-dònau a deithiant yn rhesi draw i fro codiad haul; a gwynder hwyliau newyddion y cychod pysgota sy'n teithio un ar ol un draw i gyffiniau'r gorwel asur; yn y dyddiau hyfryd hyn, y mae'r hadau a chwythwyd i ben y graig gan awelon hydref yn egino yn wyrdd, a dysgleiria ei chopa odditano fel gwyrddem (*emerald*) ardderchog yn nghanol grisial y môr.

"Aml, yn y dyddiau gynt, y dringais yr hen byramid ardderchog, â'm llyfr yn fy llaw, a'm calon yn fy ngwddf, o ofn llithro. Ond O! 'r tâl ardderchog 'rol esgyn i'w phen—glaswellt hir fel gwallt morwynig, a phinc y môr mor wylaidd a gwawr-goch yn tyfu yn gwmnïau cariadus yn eu mysg—yn fwy cariadus oblegid unigedd peryglus eu cartref creigiog; awyr, a chwmwl, a môr yn ymdaenu'n ddiderfyn ar y dde, a'r graig a'r mynydd yn breuddwydio ar yr aswy, a mantell o nydden welw-borphor ar daen drostynt i'w hamddiffyn rhag creulonder pelydrau'r haul.

"Bûm ar ben tŵr Eglwys fawr Gadeiriol gwedi hyny; dringais drumiau mynyddau ysgythrog Banau'r De; dringais

"'Yr Wyddfa, gopa gwyn,
I chwareu ar ei choryn;'

ond pe'd esgynaswn gedyrn binaclau'r ddaear i gyd, o'r Arrarat i Everest, o Etna i Gotopasi, ni chai yr oll fwy o effaith arnaf ag a gai dringo i ben y wyrddem yn ymyl y môr.

"Yn nhawelwch Mehefin yn Nghymru, ryw ddydd eto, mynaf hamdden i droedio'r hen lwybrau a droediais gynt, dringaf eto'r grisiau a ddringais gynt, a swynaf ieuenctid yn ol ar laswellt pen y graig, a mynaf wrid pinc y môr yn ol i'm gruddiau llwydion unwaith eto, drwy yfed o halen iachusol yr awelon na thraiant fyth ar ei phen."

Tuedd y Cymro yw crwydro ar ei ffordd at ei waith; nid myned at ei fusnes yn syth fel y Sais; ac ar glawr daear nis gwyddem ba gyfeiriad yr arweiniai hyn oll a ddarllenwyd uchod—os oedd cyfeiriad iddo hefyd—hyd oni roisom law ar bapyryn arall, a ymddengys i ni fel yn dal perthynas tra agos â'r blaenorol. Ni feiddiwn gyflwyno'r un sylw arno, barned y darllenydd call drosto ei hun:—

"Pan oeddwn ieuanc, hoffwn chwareu ar fin cefnfor mawr gwybodaeth, ac ar ei làn, â'i dònau yn taro wrthi, yr oedd craig yn ymddyrchafu. Ar ben y graig acw byddaf hapus, ebe fi; dacw binacl uchaf y ddaear: acw mae doethineb, a chyfoeth, ac anrhydedd daearol yn preswylio. *A'm llyfr yn fy llaw*, wele fi'n ceisio dringo, ris ar ol gris, haen ar ol haen, weithiau'n llithro, weithiau'n gwangaloni, ac wylo dagrau'n hidl; bryd arall yn enill nerth a dewrder, ac ar ol moment o hamdden yn canu'n iach ar fy ffordd i fyny. O'r diwedd, wedi llafur a lludded,

a gwendid a gâlar, wele fi ar ei phen ; ac O ! mor llawen yn mysg glaswellt esmwythder a blodau anrhydedd—wedi cyrhaedd y nôd a ddeisyfais mor hir ac mor ddwfn.

"Agorai awyrgylch gwybodaethau daear o'm hamgylch i gyd, i ddangos eu prydferthwch a'u heangder, os nad i'w hetifeddu. Gwelwn fôr gwybodaeth yn ymdaenu draw i'r pellderau tragywyddol o'r golwg. Myfyriais ar eangder y greadigaeth ; ond buan trodd mawredd yr olygfa yn ormod baich i mi. Gwelais wedi'r cyfan mor ychydig a ddringaswn, mor agos oedd gorwelion fy ngweledigaeth i'w cymharu â ffiniau eithaf tragywyddoldeb. Pe'd esgynwn i uchder y ser, buasai tragywyddoldeb eto yn gorwedd draw, draw, dros derfynau eithaf fy ngolwg.

"Breuddwydiais cyn cychwyn y cawswn weled holl faes gwybodaeth i'w derfyn eithaf—y cawswn gip ar yr holl wlad a oleuid gan haul athroniaeth ; ïe, tybiais y cawswn drem ar *secret* fawr y greadigaeth ; ond yn ofer ! Y mae hono yn gudd fel perl,

"'Yn nyfnderoedd mawr y môr ;'

ac nid oes fawr obaith y caiff *dyn* afael ynddi byth ! Leied a wyr dyn, eanged yw tiriogaeth gwybodaeth !

"Unwaith eto, meddaf, äf yn ol i ben yr hen graig, ger y pentref yn ymyl y môr, dringaf i'w phen, edmygaf y pinc sydd yn harddach yn tyfu nag wedi ei thori i ffwrdd : sylwaf ar brydferthwch ei gwedd, ac addolaf, yn fy ffordd fy hun, y Llaw anweledig a'i paentiodd.

"Ar ben y graig hon nid oes siomiant ; nid yw yn sigledig, ond yn ansigladwy, fel seiliau'r bydysawd : ar ei phen, megys plentyn bach, gwrandawaf ar furmur y dôn, ar swn yr awelon ; edrychaf ar natur yn dihuno fel baban gwridog o'i gryd ; ac yn suddo eilwaith i gwsg dan leni euraidd yr hwyr. Yn lle corsydd uwch-anianeg, craig edmygedd ac addoliad i mi !"

(I'w barhau.)

H. R.

MANION AC HANESION.

ALLTYPLACA.—Cynaliodd yr eglwys uchod ei gwyl de arferol ddydd Llun, y 5ed o Fawrth. Cafwyd gwledd arddderchog, yn rhydd ac yn rhad, gan Mrs. a Miss Jones, Pen'rallt, a'r gweinidog. Cyfranogwyd o'r danteithion blasus gan nifer luosog iawn gyda boddhad mawr. Ar ol y wledd, cafwyd cyfarfod adloniadol o natur uchel yn yr hwyr. Cadeiriwyd gan y gweinidog, ac arweiniwyd yn fedrus gan y Parch. L. Williams, Rhydygwin. Y trysorydd oedd Mr. J. Evans, Dolau-ucha ; a'r ysgrifenydd oedd Miss Jones, Pen'rallt. Adroddodd aelodau yr Ysgol Sul yn ardderchog, a chanodd y gwahanol bartïon, sef Llanwnen, Capelygroes, a Drefach, yn rhagorol. Y mae yr ysgol

hon, dan awenau Mr. J. Evans a Miss Jones, yn gweithio yn dda er parotoi eu dysgyblion ar gyfer cylchoedd pwysig mewn cymdeithas wedi iddynt dyfu i fyny. Hir y parhaont yn y gwaith da. Bendithied y Nefoedd eu hymdrechion. Hefyd, y mae Miss Jones wedi derbyn nifer fawr iawn o lyfrau a chyhoeddiadau oddiar law Miss Evans 'Rheol Cottage, sef merch yr Hybarch Proff. Evans, gynt o Goleg Henadurol Caerfyrddin, at wasanaeth y llyfrgell yn Alltyplaca.

CEFNCOED.—Darfu i'r eglwys hon benodi yn ddiweddar bedwar diacon yn ychwanegol at y rhai oeddynt yn y swydd yn barod. Dygid yr etholiad yn mlaen trwy y *ballot;* enwyd deuddeg, ond y pedwar a gawsant y nifer mwyaf o bleidleisiau oeddynt: Mri. John Jones, Evan Williams, William Morgan, a Richard Jones. Hir oes iddynt i wasanaethu'r swydd.

PENTRE.—Dydd Sul, Mawrth 11eg, cynaliwyd cyfarfodydd blynyddol y gynulleidfa uchod, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. T. J. Jenkins, Gellionen, a'r gweinidog, y Parch. D. Rees. Pregethodd y blaenaf y boreu, y prydnawn, a'r hwyr yn Gymraeg, a'r olaf y prydnawn a'r hwyr yn Saesoneg. Cafwyd cynulleidfaoedd rhagorol yn y prydnawn a'r hwyr. Y casgliadau tuag at ddyled y capel yn foddhaol, y canu yn hwylus, a'r pregethu yn rymus.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Yn sicr, mae nerth mewn cymdeithas. Po fwyaf nifer aelodau y gymdeithas hono, mwyaf i gyd ddylai ei nerth fod. Ychwanegwyd pump o aelodau newyddion at gymdeithas y Graig a Gellionen gan y Parch. T. J. Jenkins tua deufis yn ol, ac yn eu plith T. J. Evans, mab y diweddar Barch. John Evans, gweinidog Gellionen. Blodeued crefydd fwyfwy o hyd. Hefyd, ymwelodd Arweinydd y Gymanfa â ni y Sabbath diweddaf er ymarferyd â'r canu. Pregethodd Mr. Evans y boreu yn Gellionen, a chymerwyd y prydnawn at y gwaith, a'r hwyr yr un modd. Mwynhawyd oriau hapus i ganu mawl i Dduw drwy y dydd. Gobeithiwn y bydd i bob eglwys fwriada uno yn y Gymanfa nesaf fod mor ymdrechgar a Mr. Evans yn y mater—gwella'r gân; ac yna, gellir sicrhau proffwydoliaeth am Gymanfa lwyddianus yn Aberdar.

Y GRAIG, TREBANOS.—Go anfynych y pregethir ar ymadawiad dynion mawrion yn mhwlpudau Undodaidd, mor bell ag y gwyddom; ond darfu i Mr. Jenkins yma yn ddiweddar draddodi dwy bregeth gyfoethog, un ar James Martineau, a'r llall ar John Ruskin—dau gawr o wŷr nad anghofir byth eu llenyddiaeth glasurol. Os dylid cael amrywiaeth yn rhywle, y pwlpud am dani. Mae pwlpud Cymru wen wedi bod yn rhy gyfyngedig yn hyn o beth. Deued cyfnewidiad buan, fel y gwelo dynion urddasolrwydd a phrydferthwch amrywiaeth.

Y CWRDD CHWARTEROL. — Cynelir yn Ciliau Aeron, ar y dyddiau Mercher ac Iau, y 9fed a'r 10fed o Fai. Bydd y Cwrdd yn achlysur agoriad y capel newydd a phrydferth sydd wedi ei adeiladu yno. Bydd gwasanaeth nos Fercher am 6 o'r gloch, a dydd Iau am 10, 2, a 6 o'r gloch. Pregethir yn y boreu gan y Parch. E. Ceredig Jones, M.A., Bradford. Cyferfydd y Pwyllgor boreu dydd Iau am 9 o'r gloch. Gwneir casgliadau yn mhob gwasanaeth at y Drysorfa Adeiladu. Bydd cerbydau yn ngorsaf Llanbedr i gyfarfod â'r tren sydd yn dyfod i mewn oddeutu 3 o'r gloch prydnawn dydd Mercher. Rhydd yr eglwys a'r gweinidog wahoddiad cynes i weinidogion ac i bawb ereill i fod yn bresenol.

LLYTHYRON GWERNYFED.—*Mr. Gol.*, —Yr wyf wedi ymgymeryd â derbyn yr YMOFYNYDD, yn fwyaf neillduol, er mwyn erthyglau Gwernyfed. Yr wyf yn ddiolchgar iawn iddo am gymaint ag sydd wedi ymddangos, a gobeithio nad yw wedi blino. Mi a wn fod ganddo lawer yn rhagor i'w ddyweyd ar y pwnc. Hwyrach eu bod yn fwy dyddorol i mi na llawer o'ch darllenwyr, am fy mod yn hysbys, ac yn llygad-dyst, o lawer o'r pethau y traetha am danynt. Ac nid yn unig myfi, ond mae eto yn fyw yn y gymydogaeth hon ddwsin o bersonau da eu gair, pa rai sydd yn barod i roddi eu tystiolaethau i'r un perwyl, fel, yn ngenau, nid dau neu dri, ond rhagor na deuddeg, y byddo pob gair yn safadwy. Gobeithio nad yw drws yr YMOFYNYDD wedi ei gau yn erbyn yr ysgrifau hyn, ac y cawn eto yn fuan ar ei dudalenau y newyddion da hyn, sydd i mi, gyda chanoedd ereill, o lawenydd mawr. "Chwiliwn bob peth, gan ddal yr hyn

sydd yn dda." Mae Ysbrydegaeth, fel Undodiaeth, hyd yma yn anmhoblogaidd; ond mae dyddiau gwell i wawrio. Mae y gwirionedd yn sicr o orchfygu, er fod ei gerddediad yn araf; araf, ond sicr.—*John B. Lewis, Merthyr.*

PRIODASAU.

MAWRTH 20fed, yn Mrondeifi, gan y Parch. R. C. Jones, Mr. David Evans, Cilgellisaf, â Miss Anne Richards, Parkyrhos, Pencaeg.

YN Swyddfa Pontardawe, Mr. Arthur Hodge, Llangiwc, â Miss S. A. Saunders, Trebanos.

Mae dwyfoldeb mewn priodas,
Mae priodas mewn dwyfoldeb,
O! briodas hardd!
Mewn dwyfoldeb mae priodas,
Mewn priodas mae dwyfoldeb,
O! wanwynol ardd!

MARWGOFION.

CHWEFROR 17eg, Hannah Davies, Castle Hill, Cellan, gynt Pantydefaid, Cellan, yn 90 mlwydd oed. Gyda'r eithriad o ambell i gystudd byr, yr oedd yr ymadawedig wedi mwynhau iechyd rhyfeddol dda drwy'r blynyddau, yn enwedig ag ystyried ei hoedran, a'r treialon yr aeth drwyddynt, ac nid oedd hir ddyddiau wedi gallu ei hamddifadu o'i galluoedd naturiol, nac wedi eu pylu ond ychydig, fel yr oedd, nid yn unig yn alluog i fyned oddiamgylch yn sionc ac heinyf hyd o fewn ychydig ddyddiau i'w marwolaeth, ond yr oedd y glust â'r llygad hefyd yn dal yn hynod graffus. Yr oedd yn enedigol o ardal Llwynrhydowen, ac hoff iawn fyddai ganddi gael taflu ei golwg yn ol i ddyddiau ei hieuenctid yn y gymydogaeth hono, a mynych y byddai'n bygwth talu ymweliad â'r lle, hyd nes y byddai'n cofio nad yr un gwyñebau fyddent i'w gweled yno yn awr ag yn y dyddiau gynt, a byddai cofio hyny yn pruddhau ei hysbryd, ac yn diffodd ei hiraeth am ymweled â'r lle. Yr oedd yn aelod selog o eglwys Caeronen. Gadawodd blant ac ŵyrion lawer i alaru ar ei hol. Ar ddydd ei hangladd, hebryngwyd ei chorff gan dyrfa fawr i fedd yn Mynwent Caeronen. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog.

CHWEFROR 19eg, Jane Jones, Godre'rallt, Cellan, yn 86 mlwydd oed. Dyma un arall eto o hen aelodau ffyddlon eglwys fechan Caeronen wedi rhodio ffordd yr holl ddaear, a'i lle heb ei hadwaen mwy ar yr aelwyd, yn ei chartref, ac yn y cysegr; ond pan yn fyw, ac yn iach, ac yn gallu, anaml y byddai ei lle yn wâg yn yr addoliad cyhoeddus; ond yr oedd, er's cryn amser bellach, wedi cael ei hanalluogi gan henaint a methiant i fyned lawer o'r tŷ, ac yr oedd er's blynyddau fel pe yn teimlo ei bod wedi cael ei digoni â hir ddyddiau. Ni bu ei chystudd olaf ond byr iawn, ac i bob ymddangosiad, hynod o esmwyth. Gweinyddwyd arni yn dyner a gofalus gan ei phlant. Gadawodd i alaru ar ei hol dri o blant, ŵyrion, a pherthynasau ereill. Ar ddydd ei hangladd daeth tyrfa luosog yn nghyd i dalu iddi y gymwynas olaf, ac i ddangos eu cydymdeimlad â'r galarwyr. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog Caeronen, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. — Davies, Llanfair, a gosodwyd yr hyn oedd farwol ohoni mewn bedd yn Mynwent Eglwys y Plwyf, a gwasanaethwyd yno gan yr offeiriad.

CHWEFROR 25ain, yn 90 mlwydd oed, Margaret Jones, Glanyrafon, Llanfihangel-Ystrad, gynt o Blaenwern Claddwyd yr Iau canlynol yn mynwent Eglwys y Plwyf. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. L. Williams, Rhydygwin, ac yn yr Eglwys a'r fynwent gan offeiriad y plwyf.

CHWEFROR 26ain, yn 74 mlwydd oed, Mrs. Jane Owen, 41, Victoria Grove, Stoke Newington, Llundain (gweddw y diweddar Mr. David Owen, gynt o

Swyddfa'r *Faner*, Dinbych, ac wedi hyny goruchwyliwr am lawer o flynyddoedd yn Meibl-argraffdy Spottiswoode, Llundain), a chladdwyd ei gweddillion yn mynwent Abney Park, y dydd Sadwrn canlynol. Hen gymeriad anwyl, siriol, rhyddfrydig, a charedig ydoedd Mrs. Owen. Yr oedd ganddi feddwl uchel o'r Mudiad Undodaidd Cymreig yn Llundain er ei gychwyniad yn 1895, a bu'n dra charedig wrthym pan nad oedd genym ond ychydig o gyfeillion yn mhlith Cymry'r Brifddinas. Yn nyddiau ei chryfder a'i hiechyd, arferai fynychu Capel y Gohebydd. Barrett's Grove; ond yr oedd yn ddigon rhyddfrydig i ymweled â'n cyfarfodydd ninau yn City Road a Wellington Hall aml i dro, a thystiodd lawer gwaith i'r pleser a'r adeiladaeth a gafodd ynddynt. Dyma paham yr ydym yn dymuno anrhydeddu ei choffadwriaeth trwy roddi ei henw ar gadw ar dudalenau yr YMOFYNYDD. Bu yn briod hawddgar, yn fam dyner, ac yn nain fwyn a gofalus i dylwyth o blant bychain a adawyd yn ieuainc heb yr un tad. Os caricter delfrydol, caredigrwydd a hunan-aberth, yn unedig â hyder disigl yn naioni a chariad tragywyddol y Tad Nefol, os hyn sydd yn gwneyd Cristion, yna yr oedd ein hen gyfeilles yn Gristion dysglaer a theilwng o efelychiad. Bydd yn chwith genym ar ei hol, a chredwn y bydd y byd yn dlotach o'i cholli. "Verily, she did what she could."—*D.D.E.*

MAWRTH 3ydd, Mary Davies, Caeglas, Llanbedr, yn 78 mlwydd oed. Byddai'r chwaer yma yn cael ei hadnabod yn gyffredin wrth yr enw "Mary, Pentreshon," a hyny am y rheswm iddi fod yn gwasanaethu am flynyddau gyda'r diweddar Evan Davies, Pentreshon, er ei bod er's blynyddau lawer bellach yn byw yn Llanbedr. Yr oedd o ran ei hiechyd yn bob peth ond cryf, ond ei bod weithiau ychydig yn well na'i gilydd. Gweinyddwyd arni yn dyner a gofalus drwy ei holl gystuddiau gan berthynas agos ac anwyl iddi. Yr oedd yn aelod o eglwys Brondeifi, Gadawodd mewn galar ar ei hol un ferch, llawer o wyrion, heblaw perthynasau ereill. Ar ddydd ei hangladd daeth tyrfa luosog yn nghyd i hebrwng ei chorff blinedig i'r bedd yn Mynwent y Plwyf. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan weinidog Brondeifi, yn cael ei gynorthwyo gan weinidog Soar, Llanbedr, ac yn yr eglwys a'r fynwent gan yr offeiriad.

MAWRTH 8fed, Anne Thomas, Brynmawr, Pencareg, yn 67 mlwydd oed. Gwyddai y chwaer ymadawedig hon trwy brofiad beth oedd ystyr y geiriau hyny o eiddo'r Iesu pan ddywedai, "Yn y byd gorthrymder a gewch," oherwydd dyoddefodd gystudd caled am tuag wyth mlynedd. ond dyoddefodd yr oll yn hynod amyneddgar, er, o bosibl, na fedrai ddywedyd gyda Paul, "ei bod yn gorfoleddu mewn gorthrymderau;" ond yr ydym yn hyderu ei bod erbyn heddyw wedi sylweddoli mai trwy orthrymderau y mae myned i mewn i'r bywyd. Yr oedd yn ferch i'r diweddar John Davies, Penllam, ac yn chwaer i'r diweddar Evan Davies, Blaenwaun—dynion y mae yn Cellan barch i'w coffadwriaeth; ni ddarfu iddi pithau dori ar draws traddodiadau y tadau, a bydd ei bywyd syml, gonest, a diirodres yn parhau i lefaru am amser maith i dd'od, a'i choffadwriaeth yn rendigedig gan bawb o'i chydnabod. Yr oedd yn aelod selog a ffyddlon o eglwys Caeronen, a gellir yn ddiletrus ddywedyd fod ei llwyddiant yn agos at ei halon. Gadawodd i alaru ar ei hol briod, chwech o blant, dwy chwaer, wyrion, heblaw perthynasau ereill. Ar ddydd ei hangladd daeth torf hynod luosog yn nghyd i hebrwng ei gweddillion i'r pridd yn Mynwent Caeronen. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog.

MAWRTH 9fed, yn ddisymwth iawn, yn 2 Philip Row, Cwmbach, Aberdar, Philip Rosser, bugail Arglwydd Aberdar, yn 31 mlwydd oed, ar ol bod yn ngwasanaeth y teulu er yn blentyn 15 oed, ac mewn parch mawr. Desgrifir ef fel dyn siriol, serchus, hapus yr olwg, yn caru pawb, a phawb yn ei garu yntau. Gedy ar ei ol weddw mewn galar tost. Dymunwn iddi hi a'i mam oedranus, ei fam yntau, a'r lluaws galarwyr o'r ddwy ochr, fodd i ymdawelu, a nerth i droi ato Ef, y Tad Goreu, yr Hwn yw Duw pob dyddanwch. Gwasanaethwyd yn y tŷ ac yn y Cemetery gan y Parchn. D. M. Davies (A.), J. E. Jones, ac R. J. J.

Joseph Williams, Argraffydd, Swyddfa'r "Tyst" a'r "Cenad Hedd," Merthyr Tydfil